

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held
at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 16eg Chwefror, 2023 at
2.00 pm

CYNGHORWYR Cynghorydd Sirol A. Blackmore (Cadeirydd)
YN Cynghorydd Sirol Peter Strong, (Is-Gadeirydd)
BRESENNOL:

Cynghorydd Sirol: Ian Chandler, John Crook, Malcolm Lane,
Phil Murphy, Laura Wright and Tony Kear

Lay Members: C. Prosser, M. Veale, R. Guest,

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Andrew Wathan	Prif Archwilydd Mewnol
Peter Davies	Prif Swyddog, Adnoddau
Wendy Barnard	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
Jonathan Davies	Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog
Rachel Freitag	Swyddog Archwilio Cymru

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol Tony Easson

1. Datganiadau o Fuddiant

Ni waned unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau.

3. Nodi'r Rhestr Weithredu o'r cyfarfod blaenorol

Nodwyd y Rhestr o Gamau Gweithredu o'r cyfarfod blaenorol:

1. Cydweithrediadau a phartneriaethau allweddol – 14eg Gorffennaf 2022
 - a) Canlyniad o adolygiad y Tîm Archwilio Mewnol o effeithiolrwydd/tueddiadau:
Adroddodd y Prif Archwiliwr Mewnol fod gwaith yn mynd rhagddo, a bydd canlyniadau'n cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 30 Mawrth: YN PARHAU
 - b) Ychwanegu teitl swydd swyddogion arweiniol, natur rôl yr awdurdod a'r pwyllgor craffu mwyaf priodol: WEDI CAU
2. Diwygio fersiwn terfynol y Datganiad Cyfrifon i gyfeirio at ddigwyddiadau arwyddocaol yn genedlaethol ac yn fyd-eang ac i egluro byrfodau: WEDI CAU

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 16eg Chwefror, 2023 at 2.00 pm

3. 2021/22 Cronfa'r Eglwys yng Nghymru /Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy
 - a) Ystyried datgelu'r mathau o grantiau a ddyfarnwyd sy'n cael eu cyhoeddi yng nghyfrifon Cronfa'r Eglwys yng Nghymru (WCF): WEDI CAU
 - b) Set flynyddol nesaf o gyfrifon (WCF) - ymddiriedolwyr i roi cadarnhad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bod grantiau wedi'u rhoi yn unol â rheolau'r ymddiriedolaeth: Cytunwyd mai Jon Davies fyddai'n berchen ar y cam gweithredu hwn ac yn edrych i fynd i'r afael ag ef yn y cyfrifon blynyddol - WEDI CAU
4. Rhaglen Waith
Ailflaenoriaethu eitemau agenda ar gyfer cyfarfodydd Chwefror a Mawrth 2023: WEDI CAU
5. Seibrddiogelwch
 - a) Adolygu trefniadau i Aelodau gael mynediad at eitemau cyfrinachol ar yr agenda: WEDI CAU
 - b) Ychwanegu cynllun archwilio blynyddol CBST ar gyfer y SRS, y farn archwilio flynyddol, ac unrhyw adroddiadau archwilio gyda sgôr 'anfodhaol' neu gyfwerth i ategu casgliadau'r adolygiad o ddigonolrwydd swyddogaeth archwilio CBST i'r flaenraglen waith: Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol y bydd barn a chynllun Tîm Archwilio Mewnol Torfaen yn cael eu cynnwys yn y rhaglen waith. Atgoffwyd yr aelodau bod canlyniad y cynllun mewn blynyddoedd blaenorol wedi'i gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Prif Archwilydd Mewnol (Gorffennaf 2022) a bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Blynyddol wrth symud ymlaen – AR AGOR

4. Datganiad Cyfrifon (Terfynol) 2021/22 Cyngor Sir Fynwy

Ystyriwyd eitemau 5 a 6 gyda'i gilydd.

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y Datganiad o Gyfrifon 2021/22 ar gyfer Cyngor Sir Fynwy a diolchodd i'r timau amrywiol am eu cyfraniad i'r ddogfen derfynol, ac i Archwilio Cymru am ei ddull adeiladol a defnyddiol o weithredu. Atgoffwyd y Pwyllgor mai'r prif reswm dros yr oedi oedd yr elfen dechnegol o ran prisio a gwaredu ar asedau seilwaith.

Cyflwynodd Swyddog Archwilio Cymru ymateb ISA260 i'r cyfrifon a diolchodd i'r Tîm Cyllid gan groesawu'r berthynas waith dda.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau:

- Gofynnodd Aelod a ragwelir problemau tebyg gyda therfynau amser ar gyfer eleni. Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod trafodaethau cychwynnol yn awgrymu y byddai cyfrifon drafft yn gynharach eleni. Ychwanegodd Swyddog Archwilio Cymru fod yr oedi wedi cael effaith ar archwiliadau o sectorau eraill. Mae trafodaethau ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru a'r gobaith yw y bydd y dyddiadau cau yn cael eu symud ymlaen o fis Ionawr yn gynyddrannol flwyddyn ar ôl blwyddyn i ddychwelyd i'r amserlenni gwreiddiol.
- Cwestiynodd y Cadeirydd y cyfeiriad at lai o gapasiti yn y Tîm Cyllid a newidiadau mewn personél ar draws adrannau a holodd sut mae mynd i'r afael â hyn. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid y bwriedir adeiladu adnoddau i wneud penodiadau parhaol yn y Tîm Cyllid i wella capasiti ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae trafodaethau wedi cychwyn yn

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 16eg Chwefror, 2023 at 2.00 pm

gynnar gydag adrannau eraill i baratoi ar gyfer gwybodaeth diwedd blwyddyn. Gofynnwyd i'r Pennaeth Cyllid adrodd yn ôl ar waith i ddychwelyd y Tîm Cyllid i'w lawn gapasiti yn yr haf. Cyfeiriodd y Dirprwy Brif Weithredwr at y gwaith helaeth a oedd ynghlwm â'r broses gosod cyllideb eleni. Mae materion a fydd yn tynnu ar y Timau Cyllid o ran cyllideb a monitro costau e.e. gofal cymdeithasol yn orwariant sylweddol. Cadarnhawyd bod y cynigion arbedion yn anelu at sylfaen fwy cynaliadwy. Mae problemau capasiti yn debygol o barhau.

- Holodd yr Aelod ynghylch gorddatganiad credydwy o £361,000. Awgrymodd y Pennaeth Cyllid fod y sefyllfa hon yn adlewyrchu pa mor hwyr oedd hi i dderbyn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru a oedd yn achosi problemau gweinyddol sylweddol. Mewn trafodaeth ag Archwilio Cymru, bwriedir trin dyfarniadau hwyr grantiau yn briodol yn y dyfodol er mwyn osgoi ailddigwydd
- Mynegodd Aelod bryder am y newidiadau i amserlenni ynghyd â materion capasiti yn debygol o achosi problemau gyda'r amserlen. Awgrymwyd, yn yr ymateb i ISA260, y dylai fod sylwebaeth ynghylch pam fod terfyn amser wedi'i fethu a'r canlyniadau. Awgrymwyd a chytunwyd gan Archwilio Cymru y dylid cyfeirio bod dealltwriaeth o'r rhesymau pam na wnaed addasiadau i gamddatganiadau nas cywirwyd. O ran yr amserlen, rhagwelir y bydd gohebiaeth gydag awdurdodau i gadarnhau terfynau amser yn y dyfodol.
- Cyfeiriodd Aelod at gynnydd y y Dreth Gyngor a holodd y gwahaniaeth ym mhrisiau'r Cyngor a phrisiau'r farchnad ar gyfer bandiau'r Dreth Gyngor. Gofynnwyd i'r Pennaeth Cyllid ddarparu ymateb y tu allan i'r cyfarfod.
- Cyfeiriodd y Cadeirydd at y datganiad y caniateir rhyddhad dros dro i god CIPFA rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2025 i beidio ag adrodd am gostau gros a dibrisiant cronodig ar gyfer asedau seilwaith. Holodd ynghylch lefel yr hyder o ran bodloni gofynion ar ôl mis Mawrth 2025. Eglurodd y Pennaeth Cyllid fod gwaith manwl wedi'i wneud bedair blynedd yn ôl i bennu asedau seilwaith e.e. mesuryddion a chyflwr ffyrdd. Cafodd yr asedau eu cydranu wrth baratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth Asedau Rhwydwaith Priffyrdd arfaethedig a'u rhoi o'r neilltu wedyn gan CIPFA. Bydd y cofnodion hyn yn ffurfio'r data sylfaenol ar gyfer ar ôl mis Mawrth 2025.

Roedd y Dirprwy Brif Weithredwr yn dymuno diolch i'r Pennaeth Cyllid a'r Tîm Cyllid, a Swyddogion Archwilio Cymru am y gwaith o gau'r cyfrifon mewn amgylchiadau anodd. Ategwyd at y diolchiadau yma gan y Pwyllgor.

Gan gyfeirio at argymhellion yr adroddiad, nododd y Pwyllgor fod y cyfrifon wedi'u diwygio ers cyhoeddi'r fersiwn ddrafft i adlewyrchu canlyniadau'r broses archwilio allanol, ac fel y nodwyd yn adroddiad Archwilio Cyfrifon ISA260 Archwilio Cymru.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddatganiad cyfrifon terfynol archwiliedig Cyngor Sir Fynwy ar gyfer 2021/22.

5. ISA260 Ymateb i'r Cyfrifon: Archwilio Cymru

Ystyriwyd yr eitem hon gydag eitem 5 uchod.

6. Strategaeth Cyfalaf a Strategaeth Trysorlys 2023/24

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 16eg Chwefror, 2023 at 2.00 pm

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid adroddiad ar Strategaeth Gyfalaf 2023/24 a Strategaeth y Trysorlys. Wedi cyflwyno'r adroddiad, gwahodwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau:

- Gofynnodd Aelod, gan nodi'r gostyngiad mewn derbyniadau cyfalaf a'r posibilrwydd o fwy o fenthycyca, a oedd yr Awdurdod yn agos at y terfyn awdurdodedig ar fenthycyca. Ymatebodd y Pennaeth Cyllid nad yw'r Awdurdod yn agos at y terfyn awdurdodedig ar gyfer dyled oherwydd y strategaeth fenthycyca fewnol. Bydd angen monitro costau benthyca yn erbyn y gyllideb net wrth i gynlluniau buddsoddi cyfalaf gael eu datblygu dros y tymor canolig. Mae'r Awdurdod wedi llwyddo i ddenu cyllid grant ar gyfer y rhaglen gyfalaf a'r gobaith yw y bydd mwy yn dilyn er mwyn caniatáu buddsoddiad cyfalaf pellach.
- Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch y rhagamcanion ar gyfer asedau ar y cynllun ariannol tymor canolig a chyfeiriodd at y gostyngiad mewn buddsoddiad cyfalaf dros 5 mlynedd. Gofynnwyd a oedd hyn yn adlewyrchu'r cynllun presennol neu a oedd gallu'r Cyngor i nodi meysydd newydd ar gyfer buddsoddiad cyfalaf sylweddol wedi ei gyfyngu. Wrth fyfyrto ar y rhaglen graidd, nododd y Pennaeth Cyllid fod y buddsoddiad yn yr Ysgol 3-19 yn y Fenni a chartref gofal amnewid Crick Rd wedi effeithio'n sylweddol ar y blynyddoedd blaenorol. Rhaid i'r awdurdod fod yn ystyriol o'r hyn sy'n gyllideb fforddiadwy, a hynny'n seiliedig ar y gyllideb refeniw a faint o fenthyciadau fforddiadwy. Cefnogir y rhaglen graidd gan y setliad gan Lywodraeth Cymru, swm bach o dderbyniadau cyfalaf a dibyniaeth ar grantiau allanol. Y lefel o fenthycyca a nodir yw'r swm a ystyrir yn fforddiadwy a chynaliadwy i'r Cyngor.
- Gofynnodd Aelod a fyddai'r Strategaeth Gyfalaf a'r cynllun ariannol tymor canolig yn cael eu hystyried ar yr un pryd. Eglurodd y Pennaeth Cyllid fod y strategaeth ariannol tymor canolig yn seiliedig ar ddatblygu a chymeradwyo'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Bydd y Strategaeth Gyfalaf a'r strategaeth ariannol tymor canolig yn cyd-fynd yn llwyr. Mae'r cyllidebau cyfalaf a refeniw wedi'u halinio'n agos.
- O ran asedau masnachol, gofynnodd Aelod am ddadansoddiad o refeniw buddsoddiadau gan fod y ffigur a ddarparwyd wedi'i gyfuno. Nodwyd bod fformat y strategaeth wedi'i ragnodi'n drwm gan y Cod.
- Gofynnodd Aelod pa mor aml y mae gwerth asedau ar gyfer arenillion yn cael ei adolygu a ble mae'r canlyniadau'n cael eu hadrodd. Eglurodd y Pennaeth Cyllid fod y Pwyllgor Buddsoddi yn archwilio opsiynau a'r strategaeth ymadael ym mhob cyfarfod. Yn ogystal, mae'r timau Ystadau a Chyllid yn cysylltu'n rheolaidd ynghylch lleoliad y buddsoddiadau a'r enillion i sicrhau bod yr enillion yn cyfiawnhau risg. Mae buddsoddiadau masnachol yn parhau i ddarparu ffrwd incwm net y byddai'n rhaid ei disodli gan ddewis arall pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i beidio â pharhau. Mae strategaethau ymadael wedi'u harchwilio i ystyried canlyniadau gwaredu. Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd mai pwrpas y tabl yw dangos nad yw'r Awdurdod yn or-ddibynnol ar incwm buddsoddiadau masnachol fel cyfran o'r gyllideb. Mae incwm net yn cael ei adrodd mewn adroddiadau monitro.
- Gofynnodd Aelod am elfennau amgylcheddol a chymdeithasol y polisïau a gofynnodd pryd y bydd fframwaith yn cael ei ddatblygu. Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda chynghorwyr y Trysorlys a'r sefyllfa bresennol yw bod y wybodaeth sydd ar gael yn anaeddfed a bod fframweithiau'n datblygu. Cytunwyd y byddai'r sefyllfa ddatblygol yn cael ei hadrodd yn chwarterol. Eglurwyd y bydd angen amser ac adnoddau i fonitro'r agwedd hon. Mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i flaenoriaethu buddsoddiadau cyfrifol, cynaliadwy a moesegol. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod cyfarfodydd rheolaidd gyda'r ymgynghorwyr i ddatblygu'r polisi yn fframwaith.
- Gofynnodd y Cadeirydd am statws y Pwyllgor Buddsoddi a dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr ei fod yn bwriadu dod ag adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 16eg Chwefror, 2023 at 2.00 pm

Archwilio, ac yna i'r Cyngor Llawn ynghylch y Pwyllgor Buddsoddi. Bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Buddsoddi yn cael ei drefnu yn fuan i adolygu perfformiad ac i dderbyn yr adroddiad. Bydd yr holl drefniadau arferol ar gyfer goruchwyllo'r portffolio buddsoddiadau yn parhau a bydd diweddariad dros dro yn cael ei roi i Aelodau'r Pwyllgor Buddsoddi drwy e-bost ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 15 Mehefin 2023.

- Gofynnodd Aelod am ddadansoddiad tueddiad o werth y buddsoddiadau masnachol flwyddyn ar ôl blwyddyn, hefyd am yr incwm a dderbynnir sy'n cyfrannu at wasanaethau.
- Gan gyfeirio at y Fferm Solar, gofynnodd Aelod a yw'r Cyngor yn edrych i gynyddu capasiti yn Oak Grove a/neu gynyddu safleoedd yn enwedig o ystyried e.e. cynaliadwyedd a Gwent Werddach. Eglurodd y Dirprwy Brif Weithredwr pe bai'r naill awgrym neu'r llall yn cyflawni amcanion polisi, ac yn arwain at ddychwelyd i'r Cyngor, byddai'n ganlyniad da. At hynny, mae safleoedd yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd a gyflwynwyd gan y Cyngor a thirfeddianwyr eraill.
- Cyfeiriodd Aelod at Barc Hamdden Casnewydd a'r cyfyngiadau ar e.e. Benthycia Gwaith Cyhoeddus gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith a gofynnodd a oedd strategaeth ymadael. Eglurwyd bod y strategaeth ymadael yn cael ei hadolygu ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Buddsoddi. Nid yw'n cael ei ystyried yn amser da i werthu ac mae diddordeb da yn y safle felly mae'r ffocws ar lenwi'r bylchau presennol. Cadarnhawyd, dan ganllawiau'r cod, nad yw'r Cyngor yn gyfyngedig yn ei allu i gael mynediad at gyllid benthyciad PWLB na'i allu i wneud gwelliannau i'r safle.

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad, rhoddodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyriaeth i'r strategaeth gyfalaf ddrafft ar gyfer 2023/24 a'i chymeradwyo i'w chylchredeg ymlaen a'i chymeradwyo gan y Cyngor llawn.

Yn ogystal, rhoddodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyriaeth i fersiwn ddrafft o strategaeth reoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24 a'i chymeradwyo i'w chylchredeg ymlaen a'i chymeradwyo gan y Cyngor llawn. Mae hyn yn cynnwys y:

- Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw 2023/24
- Strategaethau Buddsoddi a Benthycia 2023/24

Nododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yr angen i adolygu gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor ar ran y Cyngor drwy dderbyn diweddariadau chwarterol ar weithgareddau rheoli'r trysorlys yn ystod 2023/24 yn unol â gofynion Cod Ymarfer Trysorlys CIPFA wedi'i ddiweddarau.

7. Asesiad o Alluedd ac Adnoddau y Tîm Archwilio Mewnol

Ar ran y Pwyllgor, roedd y Cadeirydd wedi llongyfarch y Prif Archwilydd Mewnol ar ei benodiad newydd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad "Asesiad o Gapasiti ac Adnoddau'r Tîm Archwilio Mewnol" gan nodi'r cynnig i ddileu un Uwch Archwiliwr CALI o strwythur presennol y Tîm Archwilio Mewnol.

Mewn ymateb i gwestiwn, esboniodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod swydd y Prif Archwilydd Mewnol yn cael ei rhannu gyda Chyngor Dinas Casnewyddl a bod trafodaethau ar y gweill. Mae opsiynau ar gyfer cydweithio yn cael eu hystyried er mwyn darparu dygnwch a chynaliadwyedd. Mae swydd y Rheolwr Archwilio yn cael ei chynnig dros dro ar hyn o bryd.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 16eg Chwefror, 2023 at 2.00 pm

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol yr adroddiad ar yr Asesiad o Gapasiti ac Adnoddau'r Tîm Archwilio Mewnol. Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau:

- Nododd yr Aelodau fod y Pwyllgor wedi derbyn bod yna faterion o ran capasiti yn y Tîm Archwilio Mewnol. Awgrymwyd y byddai dileu swydd Uwch Archwiliwr yn peri risg annerbyniol.

Wrth ystyried argymhellion yr adroddiad, ystyriodd y Pwyllgor y pwyntiau a wnaed yn yr adroddiad a themlai ei bod yn briodol mynegi eu sylwadau neu eu pryderon yn ffurfiol i'r Dirprwy Brif Weithredwr a'r Cabinet fel rhan o broses ymgynghori ffurfiol y Cyngor ar y gyllideb.

Felly, oherwydd y pryderon a fynegwyd, penderfynodd y Pwyllgor fel a ganlyn:

Tra'n cydnabod yr heriau cyllidebol sy'n wynebu'r Cyngor, mae'r Pwyllgor hwn o'r farn bod y cynnig i dynnu 1 CALI o'r swyddogaeth archwilio (sy'n cynrychioli gostyngiad o tua 18% mewn adnoddau) yn cael effaith andwyol anghymesur ar allu'r swyddogaeth i ddarparu'r lefelau angenrheidiol o sicrwydd rheolaethau annibynnol. Ymhellach, mae'r Pwyllgor yn nodi ymddiswyddiad y Prif Archwilydd Mewnol sydd, o'i ystyried ochr yn ochr â'r gostyngiad arfaethedig yn nifer y staff, yn debygol o arwain at lefel annerbyniol o ddiffyg parhad ac effaith andwyol ar y rhaglen waith archwilio. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor hwn yn argymhell nad yw'r Cabinet/Cyngor yn bwrw ymlaen â'r gostyngiad arfaethedig hwn yn nifer y staff ar hyn o bryd.

8. Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol – Chwarter 3

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol ar gyfer Chwarter 3. Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau:

- Gofynnodd Aelod am ddadansoddiad yn cynnwys yr hyn y mae'r tîm yn bwriadu ei gwblhau mewn blwyddyn, beth sydd wedi'i orffen a beth na fyddai'n cael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad, nododd y Pwyllgor y farn archwilio a gyhoeddwyd a nododd y cynnydd a wnaed gan yr Adran tuag at gyflawni Cynllun Archwilio Gweithredol 2022/23 a dangosyddion perfformiad yr Adran ar gam 9 mis y flwyddyn ariannol.

9. Nodi Blaenraglen Gwaith y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio

Nodwyd Blaenraglen Gwaith y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.

10. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Roedd cofnodion y cyfarfod blaenorol wedi eu cadarnhau fel rhai cywrain, yn amodol ar newid i fformat y rhestr o'r bobl a oedd yn bresennol.

11. Nodi dyddiad y cyfarfod nesaf sef 30 Mawrth 2023 am 2.00pm.

Gorffennodd y cyfarfod am 4.02 pm